


Oriel Gelf **Glynn Vivian Art Gallery**

OFFSITE / ODDI AR Y SAFLE

Sgwrs Artist Preswyl Glynn Vivian: Richard Higlett Medi - Tachwedd 2012

Mae rhaglen 'Artist Preswyl' Glynn Vivian yn gyfle i'r gymuned ryngweithio, cyfnewid a gweithio gydag artist, ac i artist fyfyrio, ymchwilio a chydweithio. Ein hartist ar gyfer mis Medi – mis Tachwedd 2012 yw Richard Higlett.



Delwedd: Richard Higlett, Example of Wood Repair pens - gwaith a grëwyd yn ystod preswylfa, Artist Preswyl, 2012



Delwedd: Richard Higlett: Gweithdy Dirtband, Artist Preswyl, 2012

'Gan ddechrau trwy edrych ar yr artist fel arsylwr a syniad rhamantaidd yr artist, roedd rhan gyntaf y cyfnod preswyl yn cynnwys creu dyfyniadau gan artistiaid ffuglennol a ddefnyddiwyd i annog trafodaeth ar yr hyn yw 'natur' yr artist ac annog pobl i siarad am yr hyn yr oedden nhw'n meddwl roedd artist yn ei wneud. Yn ymarfer a oedd yn trafod syniad rhamantaidd yr artist, y gwaith oedd y pwynt dechrau ar gyfer amser i ymchwilio a datblygu Geiriadur Syniadau Derbyniedig yr oeddwn i'n dychwelyd iddo trwy gydol y cyfnod preswyl.' – Richard Higlett

Sgwrs Artist Preswyl

Dydd Llun 8 Hydref a dydd Gwener 7 Rhagfyr, 4-5pm

Trafododd Richard ei waith diweddar ar y cyfnod preswyl.

Gweithdy: Dychweliad y Dirtband

Dydd Mercher 17 Hydref 12-5pm

Gwahoddwyd y cyhoedd i ymuno â band a chreu cân. Roedd y gweithdy i bobl angherddorol ac roedd y broses yn cynnwys digymhellrwydd ac arbrofi. Rhannwyd y gweithdy'n sesiynau awr a gallai'r grwpiau gadw sesiwn i weithio ar eu trac.

Stiwidio Agored

Dydd Gwener 19 Hydref, 12-4pm a 5-7pm

Ar ddiwedd y cyfnod preswyl, roedd y stiwdio'n agored yn anffurfiol i'r cyhoedd ac arddangoswyd gweithiau - rhai wedi'u cwblhau a rhai ar droed.

'Rhoddodd y cyfnod artist preswyl gyfle i arbrofi ac roedd yn fuddiol iawn wrth ddatblygu trosolwg o themâu allweddol yn fy ngwaith trwy drafod â'r cyhoedd, p'un ai'n anffurfiol neu drwy sgwrs wedi'i threfnu.' – Richard Higlett